

FFURFLEN YMATEB YR YMGYNGHORIAD

Byddem yn croesawu'ch barn ar y *Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru*. Dylid ymateb yn ysgrifenedig.

Gellir anfon e-bost i marineplanning@wales.gsi.gov.uk neu drwy'r post i:

Cangen Polisi Morol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 28 Mawrth 2014

<http://www.wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/public-participation-statement-for-marine-plan/?lang=cy>

Eich Manylion

Enw	Kirsty Lindenbaum			
Sefydliad	Cyfoeth Naturiol Cymru			
Cyfeiriad	Maes y Ffynnon Ffordd Penrhos Penrhosgarnedd Bangor LL57 2DW			
Cyfeiriad e-bost	Kirsty.lindenbaum@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk			
Math (dewiswch un o'r canlynol)	Awdurdod Lleol			
	Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus	X		
	Addysg Uwch / Addysg Bellach / Ysgol			
	Diwydiant			
	Corff Proffesiynol			
	Grŵp Arall â Diddordeb Unigolyn			
A ydych yn fodlon bod eich manylion yn cael eu cyhoeddi yn y crynodeb o ymatebion?	Yd w	x	Na c yd w	

Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi - ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch yma:

1		Yd w	Na c
----------	--	-------------	-------------

	A ydych yn cytuno â'r ymagwedd at gyfranogiad y cyhoedd fel y'i nodir yn y Datganiad hwn o Gyfranogiad y Cyhoedd? Os nad ydych, pam?		yd w
		X	

Sylwadau

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn croesawu cyhoeddi'r Datganiad hwn o Gyfranogiad y Cyhoedd, a dechrau ar y gwaith o gynllunio morol yng Nghymru.

Mae'r amgylchedd morol yn cyfrif am bron hanner ardal diriogaethol Cymru ac mae'n sicrhau buddiannau pwysig i gymdeithas, gan gynnwys swyddi, bwyd ac adnodd hamdden ac ymlacio. Fodd bynnag, mae gweithgarwch dynol yn yr amgylchedd morol ar gynydd. Mae adnoddau morol o dan bwysau oherwydd gweithgareddau megis datblygu porthladdoedd, tynnu agregau a physgodfeydd, yn ogystal â diwydiannau newydd megis ynni adnewyddadwy morol. Mae'r arfordir yn ardal bwysig i dwristiaeth a hamdden, ond hefyd yn ffocws i ddiogelu pobl ac eiddo wrth i'r ardal hon wynebu pwysau cynyddol yn sgil goblygiadau newid yn yr hinsawdd. Felly, mae'n mynd yn fwyfwy pwysig dechrau rheoli'r ardal forol ar sail cynllun er mwyn galluogi Cymru i sicrhau'r buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf posibl y gellir eu cael drwy ddefnyddio a rheoli adnoddau morol mewn ffordd gynaliadwy.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi dull gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru o ymdrin â chyfranogiad y cyhoedd fel y'i nodwyd yn y Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd. Mae'r dull gweithredu yn amlwg yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â rhanddeiliaid o ran datblygu'r cynllun morol, sy'n unol â'r argymhellion ynglŷn ag ymgysylltu â dinasyddion, cydweithredu a chyd-gynhyrchu sy'n deillio o'r adroddiad diweddar gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i ddatblygu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y cyd â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru, gan y bydd hyn yn sicrhau bod proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn dylanwadu ac yn gwella cynnwys y cynllun cymaint â phosibl er mwyn adlewyrchu effeithiau a buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a all fod ganddo.

Oherwydd yr amser sydd ar gael i ddatblygu'r Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf i Gymru bydd ymgysylltu effeithiol ac ystyrlon â rhanddeiliaid yn her. Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru wneud y defnydd gorau o'r dulliau presennol o ymgysylltu â rhanddeiliaid lle bynnag y bo modd er mwyn cyflawni hyn. Un o amcanion allweddol gwaith cynllunio morol fydd sicrhau'r buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd mwyaf posibl o'r amgylchedd morol. Bydd hyn yn gofyn am ddull gweithredu amlsector ac felly rydym yn pwysleisio pwysigrwydd y broses cynllunio morol i alluogi deialog ystyrlon ar draws sectorau er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu polisïau cynllunio morol effeithiol a'u rhoi ar waith.

Rydym yn rhagweld y bydd y Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf i Gymru yn eithaf strategol a lefel uchel. Mae risg y bydd rhanddeiliad, yn enwedig y rhai a all fod â phryderon penodol lleol ynglŷn ag ardaloedd ar wahân yn dod yn rhan o'r broses, ond wedyn yn teimlo nad yw eu hanghenion wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn y cynllun morol terfynol. Ymddengys mai dyna un feirniadaeth gynnar o'r prosesau cynllunio morol sy'n mynd rhagddynt mewn rhannau eraill o'r DU. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ei fwyaf effeithiol pan fo dealltwriaeth ymhlith y rhai sy'n cyfrannu ynglŷn â chwmpas gofynnol a dylanwad posibl eu sylwadau. Felly, bydd yn bwysig rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid o ran cwmpas a manylder y cynllun cyntaf hwn yng Nghymru, gan bwysleisio pwysigrwydd y broses gynllunio (fel rhywbeth ar wahân i'r cynllun ei hun) a'r graddau y mae'r Llywodraeth yn anelu at ddatblygu manylion gofodol pellach mewn cylchoedd o'r broses gynllunio yn y dyfodol.

Mae'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd yn nodi'r fframwaith ar gyfer ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y mae angen eu hystyried mewn cynlluniau morol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn bod y rhain yn adlewyrchu'n fras yr ystod o faterion a buddiannau a fydd yn berthnasol i waith cynllunio morol ar gyfer dyfroedd Cymru. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod y broses o ddatblygu'r cynllun morol yn adlewyrchu datblygiad sectorau unigol, ac, yn bwysicach na hynny, y rhyngwyneb rhyngddynt fel y gall y cynllun morol ychwanegu gwerth at y fframwaith rheoli cyfredol yr amgylchedd morol.

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y ddogfen hon